Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 10fed Ionawr, 2012 yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli.
Minutes of the meeting of Y Felinheli Community Council held on 10th January 2012 at the Memorial Hall, Y Felinheli.

Yn Bresennol/Present: Ken Brown (Cadeirydd);
Lena Ashley; Ronald Gray; Sian Gwenllian;
Iestyn Harris; Pat Jones; Eluned Owen
Gerald Roberts; Meirion Roscoe;

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd. Cydymdeimlodd a Chyng Iestyn Harris ar farwolaeth ei dad.

The Chairman welcomed all to the first meeting of the New Year. Expression of sympathy was extended to Cllr Iestyn Harris on the death of his father.

2) Ymddiheuriadau/Apologies: Gareth Griffith; Daniel Williams
George Smith; Pat White

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest DIM /NONE

4) Cofnodion/ Minutes:

Cyflwynwyd cofnodion 13eg Rhagfyr 2011 a derbyniwyd fel rhai cywir gyda man newidiadau i'r cofnod parthed Cynllun Datblygu Lleol.
Clerc i ail osod y cofnod fel a ganlyn:
Cynllun Datblygu Lleol/ Local Development Plan.
Cafwyd gopi o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Mon ac anfonwyd gopi electroneg i bawb oedd gan adnodd cyfrifiadur, gyda rhai eraill yn derbyn copi caled. Teitl y cyhoeddiad oedd "datblygu'r Weledigaeth, Prif Amcanion ac Opsiynau Strategol". Os ydych am weld copi. Cysylltwch a Chlerc y Cyngor Cymuned (manylion ar y wefan www.felinheli.org) neu ewch i wefan Cyngor Gwynedd). Y ddogfen derfynol fydd yn diffinio faint o ddatblygiadau fydd angen yng Ngwynedd erbyn 2026 ac yn lle fydd y rhain, Bydd wedyn yn sail i ddynodiadau tir manwl ar gyfer tai, cyflogaeth a hamdden.
Arweinwyd y drafodaeth gan Cyng Sian Gwenllian ac eglurodd gynnwys y ddogfen. Cwestiynwyd yn gyntaf ar ba sail y daethpwyd at y ffigyrau oedd yn cael eu cynnig yn yr opsiynau ar gyfer NIFER o unedau tai. Rhagwelwyd twf mewn angen ar draws Gwynedd rhwng 3 a 11% mewn nifer tai dros y 15 mlynedd nesaf. Ond nid yw'n glir ar ba sail y daethpwyd i'r casgliadau yma. Derbyniwyd y bydd rhaid cael tai newydd yng Ngwynedd ac fod angen am dai i bobl leol. Mae un opsiwn yn y ddogfen yn canolbwyntio twf a'r Dinas

Bangor ac 'roedd aelodau'r Cyngor yn ofni y byddai'r opsiwn yma yn niwidiol iawn i'r Felinheli ac fod peryg i'r pentref gael ei foddi gan dai newydd. Teimlwyd y byddai hyn yn gyfystyr a trefoli ardal wledig gan roi straen ar ein diwylliant a'n iaith. Mae'r iaith dan fygythiad yn barod gydag 70% yn ei siarad; gostyngiad dros y blynyddoedd. Nodwyn fod un datblygiad mawr ar y gweill ger yr ysgol fel rhan o'r Cynllun Unedol ac fod cae arall gerllaw wedi ei glustnodi ar gyfer ei ddatblygu. Dywedwyd hefyd fod nifer o ganiatadau cynllunio yn bodoli yn barod ond heb eu gweithredu. Yr angen yn Y Felinheli yw tai i bobl ifanc, tai ar rent a thai llai i bobl oedrannus sydd efallai yn byw mewn tai rhent cymdeithasol 3 llofft fasa'n addas i deulu ifanc. Beth nad oes angen yw gwneud Y Felinheli yn bentref lloeren i weithwyr y trefi cyfagos.

Minutes of the meeting held on 13th Decemberr were presented and accepted as correct subject to amendments to the minute referring to the Local Development Plan. Clerk to re-set the minutes as follows:
A draft copy for discussion of the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan had been received and a copy was sent electronically to everyone that had computer facilities, whilst some others received a hard copy. The document is called "Developing the Vision, Key Objectives and Strategic Options 2. (If you would like a copy please contact the Community Council Clerk – details on www.felinheli.org). or visit the Gwynedd Council website.
The discussion that followed was led by Cllr Sian Gwenllian who explained the contents of the document. The councillors questioned how the Council had arrived at the different figures in the options for the number of housing units, It was also accepted as fact that there was a need for more homes in Gwynedd, and the need for houses for local people. One option in the document centres on the City of Bangor and the members of the Council were afraid that this option would be detrimental to Y Felinheli as there was a danger of the village being swamped with new houses. It was felt that this was tantamount to the urbanisation of a rural area by imposing a strain on its culture and language. The language is already under threat with only 70% speaking it; a decline over the years. It was noted that one substantial development was already in process near the school as part of the Unitary Development Plan and a further field nearby has been earmarked for development. It was also stated that numerous planning applications have been submitted but have not been implemented. The need in Y Felinheli is housing for young people, rented accommodation, and smaller houses for the elderly who possibly are living in rented community housing with 3 bedrooms that would be more suitable for a young family. What is not needed is to make Y Felinheli a dormitory village for workers in nearby towns.

Materion I'w Trafod / Matters for Discussion:

I) Gwefan Cymunedol – ystadegau Mis Rhagfyr 40957

Diweddaru'r Wefan – Adroddiad Cyng Meirion Roscoe.
Yn dilyn ei ymweliad a Mr Michael Roberts, Delwedd, eglurodd y posibiliadau o ehangu gwasanaeth y wefan er budd pobl leol.
Ymestyn gwybodaeth am yr ardal i gynnwys llwybrau, lluniau, fidio yn disgrifio hanes lleol. Hysbysebu cwmniau a busnesau lleol. Yn ogystal a llawer syniad arall. Yn gyfangwbl mae'r wefan wedi derbyn dros 330,000 o ymweliadau

ii) Cymunedau Cynaladwy – Bydd cyfarfod nos Fercher, 11eg Ionawr am 7.0 yh yn y Neuadd Goffa pan ddisgwylir cynrychiolwyr o Antur Waunfawr i gychwyn y gwaith. Bydd angen edrych ar y pentref yn eang ac o bosib holiadur ar gyfer pob eiddo.

.

iii) Biniau Ailgylchu – Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi trefnu lleoliad i'r biniau ger maes parcio cychod i gyferiad Hen Gei Llechi. Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

iv) Lan y Mor – dim ymateb gan yr Heddlu. Bolardau wedi eu hail osod. Adroddwyd bod sbwriel eto wedi ei adael ger cae pel-droed.

i) Community Web site – statistics for the month of December – 40957

Up-dating the web site – Cllr Meirion Roscoe's Report. Following on from his meetring with Mr Michael Roberts, Delwedd, he explained the potential development of the web site for the benefit of local people. Extending people's knowledge of the area including footpaths, photographs and video relating the local history. Advertising of local companies and businesses. In addition to many other suggestions. In total the web site has attracted over 330,000 hits

ii) Sustainable Communities – A meeting to be held on Wednesday, 11th January at 7.00pm when representatives from Antur Waunfawr will be present to commence the process. It will be necessary to have a broad outlook on the village with possibly a questionnaire for each property.

iii) Re-cycling Bins – Chairman reported that he had organised a location for the bins near the boat park towards Hen Gei Llechi. Clerk to notify Gwynedd Council.

iv) Beach Road Area – no response from the police. Bollards have been replaced. Reported that yet again household rubbish has been left near the football field.

5) Cynllun Datblygu Lleol/ Local Development Plan. Eglurwyd bod cyfarfod Cyngor Gwynedd o'r Cynllun yn cael ei gynnal nos Fercher, 11eg Ionawr. Yn dilyn trafodaeth byr, penderfynwyd cynnal cyfarfod o'r Cyngpor Cymuned Nos Fawrth, 17fed Ionawr, yn y Neuadd am 7.00 yh i drafod ymhellach.

It was explained that a meeting of Gwynedd Council to discuss the Plan had been arranged for Wednesday 11th January. Following a short discussion it was agreed to convene another

meeting of the Community Council to discuss the issue.

6) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report

Cyfarfod Is-Bwyllgor yw drefnu i drafod drafft Rhestr Waith y Gofalwr/Gofalwraig yn ogystal a chytundeb cyflogaeth.

Dim ymateb hyd yn hyn oddiwrth y pensaer ynglyn a'r ddamwain.

Sub-Committee to be called to discuss the Draft Schedule of Work and employment contract for the caretaker.

7) Cadarnhau gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol. Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report.

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Rhagfyr.
Cyflwynwyd Cysoniad Banc i gadarnhau'r gweddill.

Derbyniwyd rhagamcaniad cyllid am y flwyddyn ariannol 2012/2013

Penderfynwyd codi lefel y praesept mewn swm o £1,000 am y flwyddyn 2012/1013. Golygir hyn godiad o 97c y flwyddyn ar lefel y dreth. Bydd Praesept y flwyddyn felly yn 27,000.

A summary of payments during the month of December was cofirmed.
A Bank Reconciliation was presented confirming the balances..

A projected budget for the financial year 2012/2013was presented.

It was decided that the annual precept for 2012/2013 be raised by £1000. This means an increase of 97p per annum per property. The Precept for the year will be £27,000.

8) Gohebiaeth / Correspondence:

Derbyniwyd a nodwyd gohebiaeth ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondences for the month were received and noted.

Cyngor Gwynedd - Preasept / Precept 2012/2013 - Gofynnwyd i Gynghorau Tref a Chymuned gyflwynno eu cais erbyn 31 Ionawr fan bellaf. Eglurwyd bod ansicrwydd ynglyn a dyfodol y grant a roddir i rai Cynghorau Cymuned ac yn rhybuddio, yn wyneb y sefyllfa ariannol anodd maent yn ei wynebu, fod yna debygoliaeth gref mai'r flwyddyn ariannol nesaf fydd yr olaf i'r grant yma gael ei dalu.

Gwynedd Council – Community and Town Council are requested to submit their application by 31 January at the latest. Explained that there is uncertainty regarding the grant that is given to some Community Councils and warning that due to the difficult financial situation they face, there is a strong likelihood that the next financial year will be the last year in which the grant will be paid.

9) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc / Memorial Clock

Dim yw adrodd / Nothing to report.

10) Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications:

Tir ger / Land near 26 Snowdon Street, Y Felinheli
Adeiladu Ty Deulawr - Erect two storey dwelling

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

11) Neuadd yr Eglwys / Church House

Dim yw adrodd ar hyn o bryd.
Nothing to report at this stage..

12) Adroddiad Is-Bwyllgor Y Fynwent / Cemetery Sub-Committee Report

Dim yw adrodd / Nothing to report

13) Adroddiad is-Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las
Car Park/Lon Las Sub-Committee Report

Trist yw adrodd bod fandaliaeth nol yn y pentref. Car yn y maes parcio wedi ei ddifrodi'n droseddol drwy ei ledaennu a 'Superglue". Hefyd hoel traed yn cerdded dros y ceir.
Gweithred: Heddlu i gael gwybod ac o bosib sustem CCTV yw ddefnyddio.

Sad to report that fandalism has returned to the village. Car in the parking ground criminally damaged by spreading Superglue over the body work. Also foot marks over the cars.
ACTION: Police to be notified.and possibly CCTV to be installed.

14) Adroddiad Is-Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau
Public Footpaths, Shelters/ Benches Sub-Committee Report.

Arosfan Cerrig yr Afon – gwydrau wedi eu dwyn eto. Dyma'r ail waith

i hyn ddigwyydd.

Cerrig yr Afon Bus Shelter - glass panes stolen again. This is the second occurrence at this site.

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir /County Councillor's Report

Adroddiad Cynghorydd Ionawr 2012 BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI GYD

1)Mae llythyrau yn gofyn am brisiau wedi mynd at ddau gwmni sydd a diddordeb mewn cael cytundeb i **wella'r tirlun** ar y llethr gwyrdd gyferbyn â Londis. Mae grant wedi ei roi gan Trefi Taclus. Rydym yn awyddus iawn i gael syniadau pobol y pentref a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu.

2)Cais Cymunedau Cynaliadwy : mae'r Felin yn un o 5 cymuned sydd wedi eu dewis i fod yn rhan o'r prosiect cyffrous yma. Cyfarfodydd yn cael eu cynnal i symud hwn ymlaen. Byddaf yn ebostio eto efo mwy o fanylion am y cynllun yma.

3) **Lon Las**: Mae Cyngor Gwynedd eisiau symud ymlaen ym Mawrth 2012 gyda'r gwelliannau i Lonydd Las y pentref. Mae hyn yn cynnwys creu darn newydd o Lon Las newydd ar hen drac y rheilffordd rhwng Allt Dinas a Ffordd Caernarfon. Bydd angen caniatâd cynllunio a bydd cyfle i bobl leisio barn am y datblygiad newydd yma bryd hynny.

4)Mae Pwyllgor yr Urdd wedi trefnu nosweithiau er mwyn codi'r £2,000 sydd yn weddill.Mwy o wybodaeth i ddilyn.

5)**Cynllun Tai Drws y Coed ger Tan y Maes**. Mae'r tir yn rhan o'r Cynllun Datblygu Unedol ac mi fyddai'n rhaid cynnwys 18 allan o'r 52 fel tai fforddiadwy. Nid yw'r cais wedi ei gyflwyno yn ffurfiol eto a bydd cyfle i bawb weld y cynlluniau a mynegi barn drwy'r broses cynllunio.

6)Llwybr Cyhoeddus Pistyll ger Ffordd Brynffynnon : mae'r gwaith yn unol a'r caniatâd cynllunio.

7)Bun halen top Penceunant : roedd bun yn arfer bod yma ond mae wedi ei symud i leoliad arall ar y stryd ac felly ni fydd un arall ar gael.

8)Kiosk Aberpwll: Dywed BT mai eu cyfrifoldeb nhw yw trwsio'r kiosk ac na ellid ei symud am ei fod mewn ardal gadwraeth. Byddwn yn dal ati efo BT.

9)**Cyfyngiadau cyflymder yn Aberpwll** ar y ffordd i fewn i'r pentre. Daeth cais am gael unai symud y 30MPH fwy allan o'r pentre neu am arwyddion 40MPH cyn y rhai 30 ac am ddulliau tawelu traffig.

10)Lon Las ger Yr Hen Orsaf (Penningtons): mae preswylwyr yn poeni am ddiffyg rheolaeth ar geir a beiciau ger yr eiddo. Mae llinellau ffordd newydd wedi eu gosod yma.

11)**Cynllun Datblygu Lleol Y Felinheli** : mae hwn yn cael ei drafod yn Cyngor Cymuned a bydd sylwadau cychwynnol yn cael eu cyflwyno. Mi gysylltaf eto gyda mwy o fanylion.
12)Biniau ailgylchu wedi eu symud o'r Half way ar gais y perchennog. Rydym yn gobeithio cael lleoliad newydd yn y maes parcio ger y Doc.
13)Bum yn yr ysgol yn trafod materion cymunedol a byddaf yn ail-ymweld i gytuno ar gynllun gweithredu.
14)Bum yn Ysgol Syr Hugh hefyd yn trafod fy ngwaith fel cynghorydd.
15)Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cynnal gweithgareddau cymunedol dros y Nadolig. Cefais gyfle i fwynhau llawer ohonyn nhw.
16)A hefyd, llongyfarchiadau i bawb gafodd wobr am erddi gorau llynedd. Manylion a lluniau ar y wefan yn fuan. www.felinheli.org

Councillors' Report Jan 2012 HAPPY NEW YEAR TO YOU ALL

1)Letters requesting prices for a contract to landscape improvements on the green slope opposite Londis have been sent to two interested parties. We are eager to hear ideas and will be holding a meeting. Grant has been approved by Tidy Towns.
2)Sustainable Communities Application: Felin is one of 5 communities chosen to be part of an exciting project. Meetings are being held. I will email more details about this scheme.
3)Lon Las: Gwynedd Council is eager for the work to create a new piece of cycle track on the old railway track between Allt Dinas and Ffordd Caernarfon (accessing the main road near the lay-by on Ffordd Caernarfon) in March 2012. The development will need planning permission and local people will be able to voice their opinions through the planning process.
4) The Urdd Committee has arranged two other events to raise the remaining £2,000.
5)Drws y Coed / Tan y Maes Housing scheme.This land is part of the Unitary Development Plan and would have to include 18 affordable houses out of 52 houses. The plan has not yet been submitted and there will be a chance for everyone to see the plans and make comments through the planning process.
6)Pistyll Footpath near Ffordd Brynffynnon : the work is in accordance to planning permission.
7)Salt chest at the top of Snowdon Street : The Council say the bin has been relocated on the street and will not be placing a new bin.
8)Kiosk at Aberpwll: its condition is deteriorating and BT accept responsibility for maintaining this as it is in a conservation area. We will continue to press for the work to be carried out.
9)Speed limit signs at Aberpwll. A request has been received to either move the 30MPH signs further out of the village or for 40MPH before the 30 signs and for traffic calming.

10)Lon Las near Yr Hen Orsaf (Penningtons): residents are concerned about lack of regulation on cars and cycles near the building. New road markings have been placed here.
11) Y Felinheli Local Development Plan: this is being discussed at Community Council meetings at the moment. I will email more details.
12)Recycling bins have been removed from Half Way at owner's request. Community Council hopes they can be relocated to car park near the Dock.
13)School : I discussed community issues with Year 6 and will be returning there to develop an action plan.
14)I went to Ysgol Syr Hugh to discuss my work as councillor.
15)Congratulations to all involved in the various Christmas events and activities which were very successful.
16)Congrats to all those who won awards for best gardens last year. The winners will be onwww.felinheli.org shortly.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

8 Tai Terfyn, Y Felinheli – Adroddwyd bod dodrefn a rhewgell wedi eu gadael yn yr ardd ffrynt am wythnosau lawer.
Clerc i roi gwybod i Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd.
8 Terfyn Terrace, Y Felinheli – reported that furniture and a fridge had been left in the front garden for weeks. ACTION: Clerk to notify Environmental Health Services.

Plac ar safle Capel Wesleaedd. Cynigiodd Cyng Eluned Owen bod plac yn cael ei osod ar safle Capel Wesleaedd ar Stryd Bangor.
Penderfyniad: Cyng Eluned Owen i gysylltu a Mr Dennis Roberts.
Plaque on site of former Wesleyan Chapel, Cllr Eluned Owen proposed that a memorial plaque be placed on the site of the former Wesleyan Chapel on Bangor Street. DECISION: Cllr Owen to contact Mr Dennis Roberts

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y cyfarfod i ben am 8,45
No other matters to discuss and the meeting finished at 8.45.p.m.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 17fed Ionawr 2012 yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli.

Minutes of the meeting of Y Felinheli Community Council held on 17th January 2012 at the Memorial Hall, Y Felinheli.

Presennol / Present: Cllrs. Ken Brown; Sian Gwenllian; Pat Jones; George Sdmith; Lena Ashley; Meirion Roscoe and Iestyn Harris.

Ymddiheuriadau / Apologies: Cllrs Gareth Griffith; Pat White.

Galwyd y cyfarfod i drafod Cynllyn Datblygu Lleol ar y Cyd .

The meeting was convened to discuss the Joint Local Development Plan.

Arweinwyd y Cyfarfod gan Cyng Sian Gwenllian. Cllr Sian Gwenllian chaired the discussion.

Ar gyfer y drafodaeth, 'roedd Cyng Sian Gwenllian wedi addasu map o ardal Y Felinheli gan liwio ardaloedd oddimewn i'r pentref oedd yn addas, yn nhyb y Cyngor Cymuned, ar gyfer gwahanol ddefnydd.
Drwy astudio'r map, gwelir beth oedd y Cyngor Cymuned yn ddymuno ei glustnodi ar gyfer tai fforddiadwy, hamdden, cyflogaeth ac ardaloedd oedd angen eu diogelu rhag unrhyw fath o ddatblygiad. Cyngor Gwynedd fydd yn penderfynu yn y tymor hir.

Cytunwyd nad oedd eisiau mwy o dai ar wahan i dai ar gyfer pobl leol. Pwysig cadw tir at bwrpas hamdden a chyflogaeth. Dim datblygiad i fod tu allan i ffiniau'r pentref.

Ar ol trafodaeth, ac er mwyn cyfleu sylwadau Y Cyngor Cymuned cyn y dyddiad cau oedd wedi ei alw gan Gyngor Gwynedd, cytunwyd i dderbyn y Cynllun fel ymateb ac i gyfleu y sylwad i Ms Nia Davies, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Cyngor Gwynedd.

PENDERFYNWYD – bod y map, gyda sylwadau'r Cyngor Cymuned yn cael ei arddangos i'r cyhoedd yn y Felin Sgwrsio ac ar y wefan.
bod y Cyng Sian Gwenllian yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig manwl i'r Uned Polisi
bod y Cyng Meirion Roscoe yn cyflwyno sylwadau'r Cyngor Cymuned ar lafar i'r Uned Bolisi ac yn cyflwyno'r MAP.

For the pupose of discussion, Cllr Sian Gwenllian had adapted a map of Y Felinheli area by colouring suitable areas within the village for the various usage. Detailed examination of the map showed the areas that the Community Council felt had to be earmarked for affordable housing, leisure and employment and areas that had to be preserved from any development.

Agreed that there was no need for further housing except housing for local people. It is important to protect land for leisure and employment purposes. No development to land outside the village boundary. But Gwynedd Council will decide in the long term.

Following discussion, and for the purpose of submitting Community Council comments before the closing date set by Gwynedd Council, it was agreed to accept the plan as a response and to convey comments to Ms Nia Davies, Joint Planning Policy Unit, Gwynedd Council.

DECIDED: that the map, together with Commuity Council's recommendations be displayed to the public at Y Felin Sgwrsio and on the website.
that Cllr Sian Gwenllian submits detailed comments to the Policy Unit

that Cllr Meirion Roscoe conveys the Community Council's comments to the Policy Unit together with the map.

CAIS CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATION

Brig y Fenai, 1a Menai Court, Caernarfon Road, Y Felinheli

Estyniadau a newidiadau (Cynllun diwygiedig i'r un a ganiatawyd o dan gais rhif C10A/0240/20/LL)
Extensions and alterations(amended scheme to that approved under application reg no C10A/0240/20/LL

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION